

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

Y Cynghorydd Mike Kern

Ward:

Pîl, Mynydd Cynffig a
Chefn Cribwr

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Ebrill **2023**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli ward newydd y Pîl, Mynyddcynffig a Chefn Cribwr ym mis Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor:

Cyngor
Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003
Is-Bwyllgor A Deddf Trwyddedu 2003
Pwyllgor Trwyddedu
Is-bwyllgor A Trwyddedu
Pwyllgor Rheoli Datblygu
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 3

Penodiadau i gyrrff allanol

Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr
Cyd-bwyllgor Amlogfa Margam

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 57 o ymholiadau cyfansoddol yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill maen nhw wedi gofyn i mi eu helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf fi wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddefnyddio'r ddolen hon:

[Y Cynghorydd Mike Kern](#)

Gweithgarwch yn yr Etholaeth

Ynghyd â'm cyd-gynghorwyr ar gyfer y ward hon, rydym wedi cynnal cymorthfeydd rheolaidd ac wedi mynychu cyfarfodydd cytundeb i helpu gydag unrhyw un o bryderon y preswylwyr; mynychu gweithgareddau lleol a drefnwyd gan elusennau a grwpiau yn ein ward ynghyd â digwyddiadau eglwysig a digwyddiadau chwaraeon.

Fel Cynghorydd y Fwrdeistref, cefnogais Gyngor Cymuned y Pîl i osod parc chwarae i blant yn Waun Cimla.

Mentrau arbennig

Rwyf fi wedi ymgyrchu ar ran trigolion a Chyngor Cymuned y Pîl i gael man croesi diogel ar hyd y B4281 ym Meddygfa Heathbridge, Bridge Street gan arwain at osod y Groesfan Pâl ar y pwynt hwn

Gweithgareddau/Materion Eraill

Fel aelod etholedig o Gyngor Cymuned y Pîl, rwyf wedi gweithio ochr yn ochr â chyd-Gynghorwyr Cymuned i drefnu'r parti blynyddol ar y cae ac wythnos yr ŵyl, hefyd digwyddiadau Nadolig cymunedol.

Y Cynghorydd M J Kearns

Dyddiad: 30 Mehefin 2023